



## Darganfod Hen Dai Cymreig Discovering Old Welsh Houses

Reports: Welcome to the many Discovering Old Welsh Houses Reports which are available here on our website. All the reports - House Histories, Building Reports and Tree-ring Dating reports - can be accessed - [here](#)

Discovering Old Welsh Houses studies and celebrates the traditional houses of North Wales and the lives of the people who lived in them.

The copyright of most of these reports belongs to Discovering Old Welsh Houses. Where copyright resides with others, we have made every effort to obtain their permission to reproduce reports on our site. Our policy is to allow free access to our research documents as part of the public benefit we provide as a registered charity. You are welcome to reproduce this material but if you do so, please acknowledge the source

If you find the content useful, please consider becoming a [Member](#) to access the many benefits available.



Please note that these reports are being updated as part of an ongoing programme of revision. Older reports sometimes refer to the old names of the Group. Between 2005 and 2012 also known as The Snowdonia Dendrochronology Project, then the N W Wales Dendrochronology Project and then the Dating Old Welsh Houses Group.

New reports will be added from time to time. Keep an eye on our website for updates.



©Discovering Old Welsh Houses Group

Rhif Elusen Gofrestredig: No: 1131782: Registered charity

[www.discoveringoldwelshhouses.co.uk](http://www.discoveringoldwelshhouses.co.uk)



# Darganfod Hen Dai Cymreig Discovering Old Welsh Houses

Between 2005 and 2012 also known as The Snowdonia Dendrochronology Project, then the N W Wales Dendrochronology Project and then the Dating Old Welsh Houses Group.

## Tŷ Cerrig

Llangywer  
Meirionydd



## House History

A Part History of the House & its Families

Author: Nan Griffiths

2015

Written in the language chosen by the volunteers and researchers & including information so far discovered

PLEASE NOTE ALL THE HOUSES IN THIS PROJECT ARE PRIVATE AND THERE IS NO ADMISSION TO ANY OF THE PROPERTIES



©Discovering Old Welsh Houses Group

Rhif Elusen Gofrestredig: No.1131782 Registered Charity

**Tŷ Cerrig/Plas Newydd**, Plwyf Llangywer Penllyn. LL23 7BY

Mae yng Nghantref Penllyn ac yn Esgobaeth Llanelwy.

O.S.Grid 290641,331868.Latitude/longitude 52.7287 -3.6250.

Rhestrwyd Gradd 2 gan CADW yn 1966. Yn dyddio o 1501 a 1634.

Saif Tŷ Cerrig mewn lle amlwg ar fryncyn uwchlaw Llyn Tegid, mewn ardal goediog, hardd. Mae ar gyrrion pentref bychan Llangywer ac mae'r ffordd breifat sy'n arwain tuag ato yn serth a chul. Wedi cyrraedd y tŷ, ar y copa, gwelir golygfeydd gwych o'r llyn.

Fel hyn y mae Iolo Morganwg yn disgrifio pentref Llangywer yn 1799: "*very small but neatly whitewashed church and small village, in a good soil and beautiful Country. See some fine cows in churchyard.*" Dyddia eglwys y plwyf o 1291. Bu'r pentref yn gyfoethog iawn ei ddiwylliant - beirdd, er y 15gan. a nifer o lenorion a thelynorion a gweinidogion. Mae'r llawer o chwedlau gwerin yn gysylltiedig â'r ardal.

Ymddengys o dystiolaeth y nenffyrch mai tŷ neuadd pur bwysig oedd Tŷ Cerrig i ddechrau. Y Plas Newydd oedd yr enw gwreiddiol (ni wyddys a oedd yna "hen blas" cyn hynny, ond mae profion dendrocronoleg yn crybwyll 1373). Fe'i newidwyd rywbryd i Tŷ Cerrig, efallai pan addaswyd yr adeilad a'i ffrâm o goed i fod yn dŷ o gerrig ar gynllun tŷ Eryri. Mae Edward Lhuyd yn defnyddio'r ddau enw yn 1696.

Roedd y teulu yn noddi beirdd, yn llenyddda ond erbyn heddiw mae'n adnabyddus fel cartref teuluol yr aelod seneddol blaenllaw Tom Ellis.

Mae'r hen dŷ gwreiddiol ynghlwm wrth ffermdy sylweddol o'r 18gan ac mae'r adeilad yn ymddangos yn debycach i stabal neu feudy gyda'i adwy eang a grisiau cerrig allanol yn arwain at daflod. Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod yr adeilad di-nod yma yn hynafol iawn ac iddo fod unwaith yn blasty pwysig. Fe'i hesgeulustwyd ar wahanol gyfnodau a bu'n wag am gyfnod ond mae'r perchnogion presennol yn fawr eu gofal ohono.

---

Y cofnod swyddogol cynharaf sydd ar gael yw **Treth Aelwyd 1662**. Nodir mai **Edward Wynne (i)** yw'r perchennog a bod yno bedair aelwyd. Cyfeirir ato fel **Plasnewydd** ac nid oes sôn am Tŷ Cerrig.

Hwn, yn ôl nifer yr aelwydydd, oedd y tŷ pwysicaf ym Mhlwy Llangywer. Erbyn heddiw mae'n anodd dyfalu ym mha le yn union yr oedd y bedair aelwyd. Mae'r aelwyd sydd gyda'r hen bopty bara ar y llawr isaf yn amlwg yw'r cyntaf, a'r aelwyd o'r un simnai ar y llawr uchaf yw'r ail. Nid yw lleoliad y ddwy aelwyd arall yn y pen arall mor glir. Tybed, o gofio cyflwr y ffermydd ar ystad Edward Wynne yn 1779 a'r ffaith bod amryw wedi dirywio i'r fath raddau fel eu bod yn anaddas i fyw ynddynt y bu raid iddynt ailgodi neu efallai atgyweirio yn rhannol, y wal dalcen dde orllewinol yn Tŷ Cerrig a hyn a fu'n gyfrifol am newidiadau.

*C.C.H.M.<sup>1</sup>2:1(1953)tud.22*

Yr oedd yn arferiad yng Nghymru i deuluoedd ddefnyddio enw'r taid, o ochr y tad, ar y mab cyntaf-anedig ac enw'r nain o ochr y fam i'r ferch gyntaf-anedig fel enw bedydd.

Mae'r enw Edward yn cael ei ddefnyddio dro ar ôl tro gyda Wyniaid Llangywer, er nad oes prawf pendant yn yr achos hyn o'r arfer yma. Enwau bedydd eraill poblogaidd gan y teulu oedd Howell, Robert a John. Mae'r arferiad yma yn peri anhawster ar adegau gyda dilyn yr achau.

Hefyd mae mwy nag un Tŷ Cerrig yn yr ardal. Ceisiwyd gyda'r ymchwil yma ddefnyddio Tŷ Cerrig, Llangywer.

Yn **1681** roedd deuddeg o bobl yn byw ym Mhlas Newydd a saith ohonynt o dan ddeunaw oed. Eu hoedran oedd 15, 13, 9, 5, 4, 6, 1. gydag **Edward Wynne** yn ben teulu.

Erbyn **1686 Margaret Wynne** a enwir gyda phum aelod ym Mhlas Newydd a phedwar ohonynt, o dan ddeunaw, ac yn 13, 14, 12 a 7 oed.

Hefyd yn **1686** enwir **Edward Wynne** gyda 6 o bobl yn byw ym Mhlas Newydd ac 1 o dan ddeunaw oed yn 5 oed a'i enw oedd Robert Wynne, sef ei fab.

*Ll.G.C Llan Elwy Notitiae SA/Misc/1412*

Yn **1684** enwir y canlynol **1. Edward Wynne**, Llangower Merionnydd, Bonheddwr 2. Sir Thomas Grosvenor, Barwnig, 3. Thomas Cholmondeley Ysw. ymddiriedolwyr ewyllys Sir Thomas Middleton, Barwnig 'nodyn i dalu tair punt'.

*LLGC F4946*

Yn ewyllys **Edward Wynne** yn **1686** wedi ei dyddio yn 20/11/1689 ym Mhlwyf Llanymawddwy roedd atodiad (codicil) oherwydd marwolaeth ei fab Robert Wynne (dim dyddiad). Fe adawodd ganpunt yr un i'w wyresau: Katherine Wynne, Jane Wynne, Elizabeth Wynne, Mary Wynne a Margaret Wynne, ei ferch yng nghyfraith ac i Edward Wynne ei wŷr ifanc. Roedd ei frawd John Wynne i edrych ar ôl Edward Wynne ifanc nes y deuai yn 21 oed. Hefyd deg swllt yr un i dlodion Llangywer.

*WIAbNL 3650003*

Roedd teulu Plas Newydd yn gefnog iawn yn y cyfnod yma, yn berchen tiroedd a ffermydd ac fel y tystia dogfen 1684 roedd Edward Wynne yn ŵr o statws. Nid yw eu heiddo yn cael ei restru yn yr ewyllys ond gwelir erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif fel y dirywiodd y ffermydd ar yr ystad .

Gwnaeth Edward Wynne (i) ewyllys (SA/1689/83) a brofwyd ar 1/9/1689 ac mae wedi ei harwyddo yn dwt iawn.

Ymddengys bod ailadeiladu wedi digwydd tua'r cyfnod yma, oherwydd erbyn 1696 cyfeiria **Edward Lhuyd** ato yn ei *Parochalia* fel "Y plas newydd al's y Tu Cerrig" a hwn yw'r cyntaf a restrir ymhlith "Y Tai Pennaf". (parag. ii,69). Dywed Edward Lhuyd am drigolion Llangywer: "Their fuel is turf and small quantities of cole."

"Mae rhywfaint o dystiolaeth bod **Robert Wynne** (m.1720), ficer Gwyddelwern a bardd, hefyd yn byw ym Mhlas Newydd. (*Noddwyr Beirdd ym Meirion, Glens Davies, Dolgellau 1974, tud. 189.*) ond fel y noda'r awdur uchod mae'r dystiolaeth yn gymysglyd iawn. Claddwyd Robertus Wynne ar 2/5/1720. (*Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940. tud 1040.*)

'Pregeth Ynghylch Gofalon Bydol' oedd testun y bregeth gan Edward Samuel yn Eglwys Llangywer ar **Mai 20 1720** er cof am **Robert Wynne**. Mae'r bregeth Gymraeg yn dal ar gael trwy wefan *Llyfrau Amazon*.

**1726** Awst 29 Prydles (Rhan o 'Prydles a Rhyddhad') 'of messuages, tenements and lands known as **Tu Cerrig'** 12/58 1726 Aug29. D.R.O

**1726** Awst 30. Rhyddhad - 'of messuages, tenements and lands with appurtenances **Tu Cerrig**, occupied by Humphrey Thomas, weaver'.  
12/58 1726 Aug29. Archifdy Meirionnydd

**1730 Edward Wynne** 20 July 1730 ewyllys a bond.

Rhestr Eiddo:- (yn Saesneg.)  
Inventory

2 old sows and a calf

2 yearling calf

2 old horses 18 ewes and lamb and 2 workhorses

6 tables, 10 wooden chairs

5 feather beds and bedclothes

Old silver .....

4 iron pots

Old spits, tongs, fire shovels

2 old fowling pistols and 2 old pistols

Implements of husbandry

His wearing apparel

Bottles and glasses. (some items illegible)

£97. 10. 0.

*St Asaph Probate Records(WIAbNC)3650003*

**1730** Ceir ewyllys Howell Wynne, Plas Newydd Llangower.

Yn:-*St Asaph Probate Records (WIAbNC)3650003*

**1731** Ceir dogfen yn nodi bod 1. **Edward Wynne**, Llangower, bonheddwr, brawd ac aer, hefyd gweinyddwr ystad y diweddar Howell Wynne, Llangower, 2. John Vaughan o Caergay, Merionnydd Ysw. a Margaret ei wraig. Derbyneb am rhai gweithredoedd, eitemau a rhyddhad cyffredinol.*LIGC2066 (casgliad)*

**Edward Wynne (ii)** oedd enw trigiannydd diweddarach a ordeinwyd yn ficer Gwyddelwern yn 1724, efallai i olynu ei dad Edward, ac y gofynnwyd pastwn ganddo mewn cywydd gan Robert Wiliam o Drerhiwedog.

Mae ffyniant i'w feddiant fo,  
Gŵr isel mawr ei groeso;  
Yn ei annedd lonweded lys,  
A'i seigiau da gwresogedd,  
Ac yno mae gwin a medd;  
Cyfoethog naws enwog siŵr,  
A nawsaidd gymwynaswr.

Robert Wiliam biau'r cywydd marwnad i Edward Wynne hefyd.

Caid ganddo win a chiniaw  
Yn ddi-lid o'i ddeau law,  
A'i weddus fir i'w addef  
I feirdd oedd ei fwrdd ef.

**1734** Mae **Catherine Nanney** o'r Nannau yn cynnwys **Edward Wynne**, ei chefnider yn ei hewyllys. *LIGC2066 (casgliad)*

Ar **Awst 30 1750** Mae'r rhai isod, sef, 1. John Kerrick, Bron y Clydwr a Catherine ei wraig 2. William Price, Rhiwlas ac Edward Williams, Peniarth Ysw. yn gweithredu i ddirwyo yn y Sesiwn Fawr nesaf----Ty Cerrig

*LIGC2066 (casgliad)*

Bu i **Howell Wynne**, mab **Edward Wynne**, yn **1757** ymaelodi yng Ngholeg yr Ieso Rhydychen yn Mai **1757** yn 19 oed. Bu'n llwyddiannus i gael ei radd.

*Alumni Oxiensis tud 1622 Joseph Foster*

## **Nodiadau ar ymchwil Pam Buttrey, hanesydd ac aelod o Gymdeithas Dyddio Hen Dai Cymreig.**

### **Mehedin 1779**

Oherwydd maint ei ddyledion pan bu farw Edward Wynne daethpwyd ac achos trwy fesur yn y Trysorlys gan Richard Jones Ysw.(yr achwynydd) yn erbyn Howell Wynne, clerc a brawd yng nghyfraith ac etifedd Edward Wynne (y diffynnydd).

Penododd Richard Jones ŵr o'r enw John Jones, o Black Hall, Sir Drefaldwyn fel beili i gasglu dyledion ac elw yr ystad ar gyflog o £20 y flwyddyn am bedair blynedd rhwng Gwyl Fair y Cyhydedd 1775 a Gwyl Fair y Cyhydedd 1779. Trwy brofiad darganfu Richard Jones y byddai o fudd darparu cinio i'r tenantiaid ar diwrnod talu rhent er mwyn eu hannog i fod yn brydlon. Roedd y Beili i gael deugain swllt at y treuliau.

Roedd nifer o'r tenantiaid yn ddyledus gyda'u rhenti ond roedd y diweddar Edward Wynne wedi esgeuluso adgyweirio'r ffermdai a'r adeiladau i'r fath fodd fel bod yr adeiladau yn debygol o ddymchwel a'r ffermdai bron rhy wael i neb fyw ynddynt.

Bu'r tenantiaid yn bygwth gadael y ffermydd gan eu bod ofn cael eu claddu yn yr adfeilion.

Morgeiswyd y ffermydd ac roedd sawl bond ac amryw o ddyledion.

Erbyn **Medi 1773** roedd y bondiau a'r dyledion wedi codi i £3,719.10

**1773** Erbyn Medi **1773** roedd sawl bond a dyledion i'w talu ac wedi cynnyddu i £ 3,719. 10.'

Yn ystod yr adeg yma **1774** daeth **Ellis Cadwaladr** yn denant i Plas Newydd ac o'r amser hynny ymlaen cyfeiriwyd at y tŷ fel Tŷ Cerrig.

Mae'r cofiannydd Andronicus yn Adgofion Andronicus, (*Caernarfon 1894 tud. 117*), yn rhoi llawer o wybodaeth am drigolion Tŷ Cerrig:

"Tua 150 o flynyddoedd yn ol yr oedd yn Ty Cerig, (sic) Llangywer a elwid y pryd hwnnw Plas Newydd, deulu o'r enw Wyn yn byw, ac fe ymddengys mai teulu anuwiol iawn oeddynt, yn ymhoffi yn erledigaeth y crefyddwyr. Bu un ohonynt fodd wrth ddyfod adref o ddawnsfa a gynhelid mewn palas yr ochr arall i'r afon, ac fe fu farw yr olaf ohonynt yn berson yn Llangwm, ac fe gyrchwyd ei weddillion i feddrod y teulu yn Llangower, lle y gwelir heddiw feddfaen mawr yn dynodi y llannerch.

Oddeutu 120 mlynedd yn ol syrthiodd yr etifeddiaeth i ddwyllaw rhyw berthynas iddynt, a rhoddwyd y lle i fyny".

Mae'n sôn hefyd am y tŷ ar tud 116: "Hen balasdy, mae'n amlwg, oedd Ty Cerig; yr oedd yn dy mawr, a seler dano, ac yr oedd y seler hono er's

blynyddoedd yn llawn o ddwr, a gwelais lawer tro yr hwyaid a'r gwyddau yn ymddifyru yno".

Gweler hefyd dogfen .T. C. trigolion

### Trigolion Tŷ Cerrig 1748 – 1911

Dechreuodd teulu'r Wynniaid fynd i drafferthion ariannol yn 1722, Z/DS/12/61 ac erbyn diwedd y ganrif roedd eu dyledion yn sylweddol. Esgeulustwyd y stad yn ddifrifol. SA/1730/127B Bond NLW. Dywed y ddogfen, sy'n rhannol mewn Lladin, ac yn dyddio o 1730 fod Edward Wynne yn "prebendium pro Gwyddelwern". Ceir ynddi restr o'r anifeiliaid, oedd yn werth £97.

Erbyn 1784 bu'n rhaid i Howell Wynne werthu'r stad, oedd yn cynnwys Cae Glas, i Charles Potts am £5,000 er mwyn talu ei ddyledion.(25/11/1790)(Dogfen hir 37 tud. sydd wedi ei difrodi yn ddrwg mewn manau. (Z/DS/12/136))

Ganed **Ellis Cadwalader** yn 1748, yn fab i Cadwalader Ellis. Priododd â Gwen Edward (m.1823) ar 26 Chwefror 1772. Lluniodd **ewyllys** yn 1798 yn rhoi £8 yr un i'w ferched Elizabeth, Jane, Margaret a Mary. Roedd y gweddill i'w rannu rhwng ei wraig Gwen Edwards a'i fab Edward Ellis. Ond pe bai ei "annwyl wraig" yn ailbriodi wedi iddo farw, yna ni chai ond £2, a'r gweddill o'i chyfran i'w rannu'n gyfartal rhwng ei blant. Arwyddwyd gyda chroes yn 1798.

Ganed **Edward Ellis** yr hynaf tua 1776 a phriododd â Catherine Jones ar 15 Chwefror 1825. Erbyn **1841** yr oedd yn ŵr gweddw 65 oed yn byw gyda'i chwe phlentyn a morwyn. Bu farw ar 5/9/1847 a phrofwyd ei **ewyllys** y flwyddyn ganlynol. Mae'r ewyllys hon oll yn Gymraeg. (SA/1848/110). Rhoddodd £5 yr un i'w ferched Jane, Margaret ac Elizabeth a'i fab Ellis a £25 yr un i'w ferched Gwen, Catherine a'i fab John. Roedd gweddill ei eiddo i'w rannu'n gyfartal rhwng ei ddau fab Thomas Ellis ac Edward Ellis. Mae am roi £1 i Ellis Roberts, Cynlas ac Evan Jones, Y Bala am weithredu fel sgutoriaid. Yn ôl T.I.Ellis, ei or-ŵyr,cafodd ei droi allan o'i fferm "am wrthod plygu i ewyllys Syr Watcyn"...Crwydro Meirionnydd, Llyfrau'r Dryw, 1954, tud.23.

**Edward Ellis** oedd enw'r mab hynaf eto. Mae'n debyg iddo ef farw ac i'r bachgen nesaf a aned iddynt ar 25/7/1827 hefyd gael ei enwi yn Edward. Dywed T.I.Ellis iddo gael tymor yn unig o ysgol. Thomas oedd enw mab arall, a daeth ef yn dad i'r Aelod Seneddol blaengar Tom Ellis o Gynlas Fawr y gwelir cofgolofn i'w goffau yng nghanol tref Y Bala.

Yn **1851** roedd **Tom Ellis** yn ŵr di-briod 25 oed ac yn ffermio 80 acer yn Tŷ Cerrig gyda chymorth dau was a dwy forwyn. Pan yn canlyn Elizabeth, ei wraig, yn ddiweddarach, a Llyn Bala wedi rhewi drosto mentrodd gerdded ar draws y Llyn i arbed mynd trwy Lanuwchlyn, mewn blynyddoedd wedyn



rhyfeddai at ei ryfyg. *Crwydro Merionnydd*, tud.18

Erbyn **1861** yr oedd wedi symud i Gynlas Fawr yn Y Bala, oherwydd **William Jones** 51 oed, a aned yn Llanycil a'i wraig Jane Jones 52 oed a oedd yn frodor o Llangywer oedd yn byw yn Tŷ Cerrig gyda'u merch Mary oedd yn 25 oed. Roedd mab iddynt, a aned yn Y Bala, yn 23 oed ac yn fyfyrwr meddygol.

Roedd William a Jane Jones a'u merch Mary yn dal i fyw yn Tŷ Cerrig ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn **1871** a Thomas Morris, 11 oed, yn was bach.

Erbyn **1881 David Pugh** 60 oed, Catherine ei wraig 48 oed, eu mab Edward 17 oed, Ellen 12 oed a Jemima 6 oed oedd yno, heb yr un gwas na morwyn. i'w cynorthwyo. Nodwyd bod y teulu bach oll yn Gymry uniaith yn Nghyfrifiad **1891** ac roedd y ddau blentyn gartref yn gweithio ar y fferm.

Bu newid eto erbyn **1901** gan mai **William Williams** 46 oed, Elizabeth ei wraig 23 oed a'u plant ifainc Margaret 2, Robert blwydd a William dau fis oed oedd yno. Roedd ganddynt was, Robert J Roberts, 21 oed a aned yn Llanfor ac a oedd yn Gymro uniaith fel y teulu oll ond roedd y Saeson yn dechrau ymwthio i'r ardal gan fod eu cymdogion yn Ty'n y Cefn yn ddi-Gymraeg.

**Robert Jones** 35 oed oedd y penteulu yn **1911**, wedi ei eni yn Sir Ddinbych a'i wraig Elizabeth oedd yn 33 oed ac wedi ei geni yn Llanuwchllyn. Roedd y tri phlentyn 10, 11, 12 yn yr ysgol, a dau arall gartref. Roedd Robert Russell 16 oed, a aned ym Mlaenau Ffestiniog, yn was. Cymraeg oedd iaith y teulu.

### **Rhestr Etholiadol-** Tŷ Cerrig, Llangywer.

**1915 & 1920** Robert Jones

**1921** Robert Jones a'i wraig Lizzie Jones (sylwer, y merched yn awr, yn cael pleidleisio)

**1922 to 1927** Robert Jones a Lizzie Jones

**1928 to 1930** Owen Dafydd Jones

**1931 to 1934** Robert Jones, Lizzie Jones ac Owen Dafydd Jones

**1935** Hugh Owen Edwards , Elizabeth Edwards

**1940 to 1947** Robert Jones, Lizzie Jones ac Owen Dafydd Jones

**1948 to 1955** Elizabeth Jones, Robert Jones , Owen Dafydd Jones

**1956** Owen Dafydd Jones, Thomas White

**1960 to 1980** Owen Dafydd Jones

### **Cofnodion Beddau- Eglwys Llangywer**

1821 Awst 29 Jane Ellis yn 36 oed

1834 Hydref 28 Catherine Ellis, ail wraig yn 36 oed

1847 Medi 8 Edward Ellis, Ty Cerrig yn 74 oed

1857 Medi 26 Catherine, merch Edward a Catherine Ellis, Ty Ceryg, yn 25 oed

1859 Tachwedd 15 John, mab y diweddar Edward Ellis, Ty Ceryg. yn 29 oed

1878 June. Jane, beloved wife of William Jones, Ty Cerrig Llangower (74)  
William Jones (87) died at Ty Cerrig, Corwen. 19/11/1987.

1890 Tachwedd 7. Kate Pughe, merch David a Catherine Pughe, Ty Cerrig a  
hunodd yn yr Iesu 7 yn 28 mlwydd oed, Hefyd dwy chwaer o'r Henblas,  
Llwyngwriil Ellen Pughe 37 a Margaret Pughe 49.

- - - - -

### **Perchnogion Tŷ Cerrig.**

- 1) Edward Wynne
- 2) Rev. Howell Wynne etifedd i Edward Wynne
- 3) Isaac Gilbertson – 1836- roedd ganddo 5 fferm arall
- 4) Sir Watkin Williams Wynne – Rhan o Ystad Glanllyn. Gweler Mapiau  
1910 Treth Tir.  
Gwerthwyd Glanllyn tua 1960. Hefyd, 'Plan of Hundreds and Parishes of  
Merioneth in Mid 19<sup>th</sup>. Century'. *MHRS Journal 5:4*
- 5) Owen Dafydd Jones owned and farmed Ty Cerrig
- 6) Perchnogion a thrigolion presennol Gwynfor and Glenys Evans.

-----

Iolo Morganwg sef Edward Williams, 1747 – 1826 , bardd, saer maen a gŵr amryddawn.  
Teithiodd Gogledd Cymru un 1771-2 , hefyd yn 1773.Ymddiddorai mewn hanes a llenyddiaeth.  
Trefnodd orsedd y derwyddon ar Fryn Briallu, Llundain ac ef oedd yn gyfrifol am Orsedd y  
Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol a nod gyfrin y beirdd.

CHM – Cymdeithas Hanes Meirionnydd

LLG C - Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Edward Lhuys:- 1660 -1709 botanegwr, daearegwr, hynafiaethydd

Dol –Archifdy Dolgellau

Andronicus- (John William Jones 1842-93) Gweithiodd fel trafeliwr ym Maenceinion yna  
dirywiodd ei iechyd, dioddefai o grydcymalau a bu ar adegau yn orweddoig. Ysgrifennai  
erthyglau i bapurau newydd ac yna lyfr am ei atgofion tra'n byw yn Llanywter.

Pam Buttrey- Hanesydd ac aelod o Gymdeithas Dyddio Hen Dai Cymreig.

Isaac Gilbertson –Apwyntiwyd yn gofiadur gan Arglwydd Faer Mawddwy, ac yn dwrnai  
gyflogedig.

T.E.Ellis – ( 1859 -99) Aelod Seneddol dros Feirionnydd (1886-99) a phrif chwip y blaid  
Ryddfrydol (1894-5)mab Thomas Ellis, Cynlas. Mae cofgolofn iddo ar stryd y Bala ac un arall  
yng nghyntedd Coleg y Brifysgol, Aberystwyth.

T. I. Ellis : mab T.E.Ellis uchod ac awdur '*Crwydro Meirionnydd*'.